

GWERS 99

CYFLWYNYDD: CENNARD DAVIES

NOD: Dysgu sut i ofyn am bethau / gwasanaethau ac ati. (Learning how to ask for things / services etc.)

Geirfa

cymryd	-	to take	estyn	-	to pass
rhoi	-	to give, put			
iâ	-	ice	cwrw	-	beer
chwisgi	-	whisky	lemonêd	-	lemonade
lager	-	lager	dŵr	-	water
peint	-	a pint	hanner peint	-	half a pint
tatws	-	potatoes	moron	-	carrots
bresych	-	cabbage	panas	-	parsnips
maip	-	swedes	ffa	-	broad beans
cyllell f	-	knife	fforc f	-	fork
cyllyll	-	knives	ffyrc	-	forks
gwydraid o	-	a glass of	glasaid o	-	a glass of
wrth y bar	-	at the bar	siandi	-	shandy
â / gyda	-	with	wrth ochr	-	by the side of, beside
rhagor o	-	more (of)	mwy o	-	more (of)

RHAN 1

1. The types of questions asked would be:

Beth rwyt ti / rydych chi eisiau?
- What do you want?

Beth gymeri di / gymerwch chi?
- What will you have?

2. Remember that the object of the short form of the verb undergoes a Soft Mutation

Ga' i **g**wrrw?
Fe hoffwn i **b**eint.
Fe gymera' i **dd**ŵr.

- (a) Ga' i beint, os gwelwch yn dda?
- May I have a pint, please?

Ga' i lasaid (wydraid) o lemonêd? - Cei, wrth gwrs.
- May I have a glass of lemonade? - Yes of course.

Ga' i ddŵr â iâ? - Cewch, â chroeso.
- May I have water with ice? - Yes, with pleasure.

- (b) Fe hoffwn i lasaid (wydraid) o gwrw.
- I'd like a glass of beer.

- (c) Fe gymera' i lager ond mae Sam eisiau chwisgi.
- I'll take a lager but Sam wants a whisky.

3. Requests can be made by using a direct command

Estynnwch y maip, os gwelwch yn dda.
- **Pass** the sweeds, please.

Rhowch y tatws yma. - Dyma nhw!
- **Put / Place** the potatoes here. - Here they are!

Estynnwch y panas, os gwelwch yn dda.
- **Pass** the parsnips, please.

Dodwch y fforc yma wrth ochr y plât. - Dyma hi!
- **Put** the fork here beside the plate. - Here it is!

Rhowch ragor o faip i John.
- **Give** John more swede.
- (Give more swede to John.)

RHAN 2

1. We could also use the various forms of the Present / Future Tense of 'gwneud' (Will you . . .?)

wna i?	wnawn ni?
wnei di?	wnewch chi?
wnaiff e / hi?	wnân nhw?

Wnewch chi estyn cylllell i mi, os gwelwch yn dda? - Dyma ti / chi!
- **Will you** pass me a knife, please? - Here you are!
(Will you pass a knife to me, please?)

Wnei di roi rhagor o ffa iddo fe?
- **Will you** give him more beans?
(Will you give more beans to him?)

Wnewch chi estyn y tatws? - Gwnaf, wrth gwrs.
- **Will you** pass the potatoes? - Yes, of course.

Wnei di estyn rhagor o ffa i mi?
- Will you pass me more beans?
(Will you pass more beans for me?)

2. Possible responses to these requests are

Gwnaf	- (Yes)
Na wnaif	- (No)
Croeso	- You are welcome
Wrth gwrs	- Of course
Siŵr iawn	- Yes indeed

3. 'o' causes Soft Mutation

peint o **g**wrw
gwydraid o **dd**ŵr

4. 'â' and 'gyda' cause Aspirate Mutation

siandi â **ch**wrw - beer shandy